

# ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

## ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG

<b>Teitl y cynnig:</b>	<b>Polisi Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill Cymru</b>
<b>Swyddog(ion) sy'n llenwi'r Aseiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):</b>	<b>Helen Scaife</b>
<b>Adran:</b>	<b>Yr Adran Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes</b>
<b>Pennaeth yr Is-adran/Yr Uwch-swyddog Cyfrifol (enw):</b>	<b>Andrew Clark</b>
<b>Ysgrifennydd Cabinet/Gweinidog cyfrifol:</b>	<b>Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol oes</b>
<b>Dyddiad Dechrau:</b>	<b>20 Tachwedd 2018</b>

## A. ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG

1. **Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (a gwblhawyd gan Dîm Safonau'r Gymraeg, e-bost: [Safonau.Standards@llyw.cymru](mailto:Safonau.Standards@llyw.cymru)):**  
Cod Clirio: 02/08/2018
2. **A yw'r cynnig yn cysylltu'n glir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg – Cymraeg 2050, Miliwn o Siaradwyr a'r Rhaglen Waith gysylltiedig ar gyfer 2017-2021?**

Mae'r polisi yn amlygu pwysigrwydd yr iaith Gymraeg a'r ffaith fod cymdeithas ddwyieithog yn darparu profiadau cyfoethog sy'n gwella'r profiad dysgu. Mae darparwyr yn cael eu hannog i integreiddio'r iaith Gymraeg yn eu dosbarthiadau Saesneg ar gyfer Siaradwyr leithoedd Eraill (ESOL) lle bo hynny'n bosibl. Mae cydnabod a deall bod dwy iaith yn cael eu defnyddio yng Nghymru yn bwysig iawn, ond mae'n gallu bod yn anodd o ystyried bod yr wyddor Ladin ei hun yn 'estron'. Mae enwau lleoedd ac arwyddion Cymraeg yn creu her a chymhlethdod ychwanegol i'r broses o ddysgu iaith. Mae darparwyr yn ymwybodol o hyn ac yn helpu dysgwyr i ddeall y gwahaniaeth, gan integreiddio'r Gymraeg i'w gwersi.

Mae'r polisi yn cynnwys astudiaethau achos yn ymwneud â dysgwyr sydd wedi dysgu Cymraeg, ac mae'n cyfeirio at yr astudiaethau peilot sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae'r Ganolfan yn ymwybodol o'r angen i ddiwallu anghenion lleiafrifoedd ethnig, ffoaduriaid, ceiswyr lloches a mudwyr i gael gafael ar ddarpariaeth addas i ddysgu Cymraeg, ac mae'n ystyried dewisiadau gwahanol i helpu i sicrhau bod yr iaith yn hygyrch i gynifer o bobl â phosibl.

Yn fwy cyffredinol, mae dysgwyr ESOL yn cael eu hannog i ddysgu Cymraeg trwy'r ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

3. **Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar y Gymraeg, ac eglurwch sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer y Gymraeg:**

Mae'r dysgwyr sy'n ganolbwynt y polisi hwn yn fudwyr, yn ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches sydd wedi ymgartrefu yng Nghymru – mae'n bosibl na fydd y rhan fwyaf wedi dewis byw yng Nghymru, ond maent wedi'u gosod yn un o Ganolfannau Gwasgaru'r DU gan y Swyddfa Gartref.

Wrth benderfynu anghenion y dysgwyr hyn, mae Llywodraeth Cymru a darparwyr wedi bod yn ymwybodol o'r angen i nodi'r gofynion pwysicaf er mwyn helpu unigolion i integreiddio yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o unigolion wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd ac Abertawe.

Fel rhan o'r Cynllun Adsefydlu Pobl sy'n Agored i Niwed, sy'n fenter ar lefel y DU a ariennir trwy'r Swyddfa Gartref, mae awdurdodau lleol ledled Cymru wedi cytuno i gartrefu teuluoedd. O ganlyniad, mae mwy o deuluoedd yn cael eu cartrefu mewn cymunedau sy'n Gymraeg eu hiaith yn bennaf. Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am sicrhau bod gan bobl sydd wedi ymgartrefu fynediad i'r ddarpariaeth iaith sydd ei hangen arnynt i integreiddio'n effeithiol. Gall awdurdodau lleol ddefnyddio eu cyllid ESOL dynodedig gan y Swyddfa Gartref i helpu pobl sydd wedi ymgartrefu i ddysgu'r Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg, ond nid yn hytrach na'r Saesneg.

Mae cyllid ar gyfer ESOL yn elfen o gyllid prif ffrwd ar gyfer addysg ôl-16. Nid yw'n effeithio ar swm y cyllid a ddyrennir i gefnogi darpariaeth Gymraeg.

Nid yw'r Polisi ESOL yn achosi unrhyw effeithiau niweidiol uniongyrchol.

Mae rhai sectorau yn credu ei bod yn annheg bod Llywodraeth Cymru yn cyllido gwersi Saesneg am ddim trwy ei darpariaeth ESOL, ond bod angen talu am ddarpariaeth Gymraeg i Oedolion ar hyn o bryd. Nid yw'r polisi sy'n rheoleiddio darpariaeth gwersi Gymraeg wedi'i gynnwys yng nghylch gwaith y polisi ESOL.

Y Ganolfan Dysgu Gymraeg Genedlaethol sy'n gyfrifol am y polisi ffioedd ar gyfer Gymraeg i Oedolion, ac ar hyn o bryd mae'n ystyried ei pholisi yn ymwneud â ffoaduriaid a cheiswyr lloches.